# RHAGLEN DIWYGIO GWASANAETHAU DEINTYDDOL CYFFREDINOL (GDS)

## Cwestiynau Cyffredin ar Ddata ac eDEN

Yn dilyn y ddogfen *Myth, Facts and Frequently Asked Questions* diweddar, nod y Cwestiynau Cyffredin hyn yw mynd i'r afael â chwestiynau ychwanegol sy'n ymwneud â'r maes data.

Cynnwys


Sut y gallaf fonitro fy nghontract yn ystod y flwyddyn ariannol newydd? ........................... 2

A oes angen i ni ddiweddaru ein rhaglen feddalwedd ar gyfer yr amrywiad contract?........ 2

A all NHSBSA ddylanwadu ar ddarparwyr meddalwedd i helpu i ddatrys y materion y mae practisiau yn eu profi? ........................................................................................................... 2

Sylwadau: Rwy'n pryderu am yr amser a gymerir i lenwi ffurflen FP17DC. ....................... 2

Pryd y bydd yr NHSBSA yn sefydlu cyfrifon eDEN ar gyfer perfformwyr unigol fel y gall perfformwyr a pherchnogion practisiau fonitro eu perfformiad bob mis?................................................ 2

A fydd eDEN yn gallu adrodd ar lefel perfformiwr ar gyfer yr holl fetrigau amrywiad contractau? 3

Pryd y bydd eDEN ar gael i ddarparwyr corfforaethol? .................................................... 3

A fydd eDEN yn cael ei diweddaru'n ddyddiol yn hytrach nag yn fisol i ganiatáu i ddata gael ei gasglu mewn amser real? Ar hyn o bryd mae eDEN yn araf ac yn anghywir............................... 3

Pam nad yw eDEN yn dangos unrhyw ddata ar gyfer fy nghontract, nac ar gyfer metrigau amrywiad contract penodol?........................................................................................ 3

Sut y bydd fy natganiadau cyflog yn edrych os byddaf yn cytuno â'r amrywiad?................ 3

Ers 1 Ebrill 2022 bu newidiadau i'r FP17W. A oes rhestr o godau gwallau a'r datrysiad gofynnol mewn perthynas â ffurflenni sy'n methu cael eu dilysu?........................................................... 3

A yw'r 'rheol dau fis' yn berthnasol o hyd i gyflwyniadau FP17W? .................................... 4

Gyda pha Fand y mae Best Practice Prevention yn cysylltu ag ef mewn perthynas â'r set ddata glinigol? ........................................................................................................................ 4

Beth yw'r opsiwn "Patient Presented With" sydd bellach ar yr FP17W?............................ 4

Pam ddylwn i gwblhau'r Set Ddata Glinigol ar gyfer Glanhau a Chyfarwyddyd os yw'n atal y claf rhag cael archwiliad am ddim - mae'n ymddangos mai dim ond rhan o'r archwiliad sy'n cynnig cyngor? 4

A oes angen rhoi'r holl godau ar gyfer cyfarwyddyd brwsio dannedd/cyngor glanhau/glanhau rhwng y dannedd ar bob Cwrs Triniaeth (COT)?................................................................. 4

A oes angen i ni gael caniatâd wedi'i lofnodi gan y claf i allu rhannu ei ffôn symudol a chyfeiriad e-bost? ........................................................................................................................ 4

Onid yw 'Archwiliad am ddim yng Nghymru' - yn amherthnasol nawr gan fod metrigau newydd yn cario tâl band un? ........................................................................................................... 5

Ar gyfer plentyn o dan 12 oed, a ydym yn gadael y set ddata perio yn wag neu a ydym yn defnyddio "Archwiliad ddim yn bosibl"?........................................................................... 5

## Sut y gallaf fonitro fy nghontract yn ystod y flwyddyn ariannol newydd?

Os ydych wedi llofnodi amrywiad contract ar gyfer Rhaglen Diwygio GDS, mae angen i chi gael cyfrif eDEN i gael mynediad i'ch proffil ymarfer.  Os gwnaethoch ddewis y model Unedau o Weithgaredd Deintyddol (UDA) yna mae gennych fynediad i'ch datganiadau misol ynghyd â Compass (Activity Actual) i fonitro eich darpariaeth UDA.

## A oes angen i ni ddiweddaru ein rhaglen feddalwedd ar gyfer yr amrywiad contract?

Mae'r NHSBSA wedi darparu manylebau cyflenwyr Meddalwedd Rheoli Ymarfer Deintyddol (DPMS) ar gyfer y newidiadau i ddiwygio'r contract 6 mis cyn yr amrywiad contract. Roedd cyflenwyr DPMS yn gweithio'n galed y tu ôl i'r llenni i weithredu'r holl newidiadau angenrheidiol yn barod ar gyfer 01/04/2022. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynglŷn â'ch DPMS, bydd angen i chi gysylltu â'r darparwr yn uniongyrchol. Mae'r NHSBSA yn hyderus y bydd yr holl newidiadau angenrheidiol yn cael eu cyflwyno'n brydlon.

## A all NHSBSA ddylanwadu ar ddarparwyr meddalwedd i helpu i ddatrys y materion y mae practisiau yn eu profi?

Mae NHSBSA yn ymgysylltu â darparwyr meddalwedd ac yn rhannu gofynion y system â nhw chwe mis cyn i unrhyw newidiadau ddod i rym. Mae NHSBSA yn cefnogi darparwyr meddalwedd i sicrhau eu bod yn deall gofynion ac yn gallu cyflawni'r rhain mewn pryd er mwyn i newidiadau fynd yn fyw.
Mae NHSBSA yn cynnal sesiynau rheolaidd gyda darparwyr meddalwedd drwy gydol y flwyddyn i dderbyn ymholiadau ac adborth maes. Os ydych chi'n cael anawsterau gyda'ch meddalwedd, rydym yn eich cynghori i gysylltu â'ch cyflenwr yn uniongyrchol.

## Sylwadau: Rwy'n pryderu am yr amser a gymerir i lenwi ffurflen FP17DC.

Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r FP17DC yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae NHSBSA wedi gwneud newidiadau i'r ffurflen FP17W yn unol â Rhaglen Diwygio GDS. Er y bu rhywfaint o welliant i'r mathau a lefel y data, gallwn gasglu drwy'r ffurflen FP17W na ddylai hyn gael effeithiau ychwanegol ar amser. Mae dilysu'n cael ei wella i sicrhau bod y Set Data Clinigol (CDS) yn cyfateb i'r Bandiau triniaeth a ddarperir i gleifion, ond mae'r pwyntiau cofnodi data hyn yn aros yr un fath ag yr oeddynt mewn blynyddoedd blaenorol.

## Pryd y bydd yr NHSBSA yn sefydlu cyfrifon eDEN ar gyfer perfformwyr unigol fel y gall perfformwyr a pherchnogion practisiau fonitro eu perfformiad bob mis?

Mae NHSBSA yn gweithio ar offeryn cofrestru ar-lein ar gyfer cynefino defnyddwyr newydd ag eDEN. Unwaith y bydd hyn wedi'i sefydlu a bod lefelau diogelwch priodol wedi'u gosod, byddwn mewn sefyllfa i adeiladu eDEN lefel perfformiwr.

### A fydd eDEN yn gallu adrodd ar lefel perfformiwr ar gyfer yr holl fetrigau amrywiad contractau?

Bydd data ar lefel perfformiwr ar gael lle bo'n briodol, er enghraifft farnais fflworid a system galw ac ail-alw. Mae ystyriaeth yn parhau ar gyfer nifer y cleifion o ran y ffordd orau o adrodd am hyn ar lefel perfformiwr heb gyflwyno gwallau. Gellir gweld yr un cleifion a darparu nifer o gyrsiau triniaeth gan nifer o berfformwyr o fewn practis o fewn blwyddyn gontract, sy'n dod â heriau o ddyrannu claf o'r fath i berfformiwr o fewn practis.

### Pryd y bydd eDEN ar gael i ddarparwyr corfforaethol?

Yn ystod 2022-2023 mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo y tu ôl i'r llenni i sefydlu'r lefelau priodol o ddiogelwch, ynghyd ag ychwanegu nodwedd newydd ar Compass i gipio a chynnal rhestrau contractau cyfredol ar gyfer pob darparwr corfforaethol. Er bod mynediad eDEN ar gyfer darparwyr corfforaethol yn dal i gael ei ddatblygu, darperir y darnau data angenrheidiol i bob corfforaeth i'w galluogi i fonitro ac adrodd yn effeithiol.

### A fydd eDEN yn cael ei diweddaru'n ddyddiol yn hytrach nag yn fisol i ganiatáu i ddata gael ei gasglu mewn amser real? Ar hyn o bryd mae eDEN yn araf ac yn anghywir.

Ar hyn o bryd mae eDEN yn cael ei ddiweddaru'n fisol ar ôl torbwynt yr amserlen, fel y sefyllfa olaf ar ddiwedd y mis. Pe bai data dyddiol yn cael ei ddarparu, byddai hyn cyn torbwynt yr amserlen ac felly byddai'n cael ei newid yn ddyddiol, hyd nes torbwynt yr amserlen bob mis.

### Pam nad yw eDEN yn dangos unrhyw ddata ar gyfer fy nghontract, nac ar gyfer metrigau amrywiad contract penodol?

Ar hyn o bryd mae eDEN yn cael ei ddiweddaru'n fisol ar ôl torbwynt yr amserlen, fel y sefyllfa olaf ar ddiwedd y mis. Pe na bai data'n cael ei gwblhau ar yr FP17W neu nad yw'r FP17Wau yn cael eu cyflwyno a'u trefnu, yna ni fydd hyn yn cael ei ddangos ar eDEN tan ar ôl y torbwynt nesaf yn yr amserlen.

### Sut y bydd fy natganiadau cyflog yn edrych os byddaf yn cytuno â'r amrywiad?

Os gwnaethoch lofnodi amrywiad contract ar gyfer y Rhaglen Diwygio GDS, yna bydd y metrigau'n cael eu cyflwyno ar wahân fel cyfanswm gwerth y contract a thaliad misol (yn erbyn canrannau y cytunwyd arnynt, er enghraifft, mae 25% ar gyfer UDA mewn Practis Deintyddol ar y Stryd Fawr).

Ni fydd y rhai ar fodel UDA yn gweld unrhyw newid yn eu datganiadau cyflog ac eithrio'r targed fydd 95% ar gyfer y flwyddyn adrodd.

### Ers 1 Ebrill 2022 bu newidiadau i'r FP17W. A oes rhestr o godau gwallau a'r datrysiad gofynnol mewn perthynas â ffurflenni sy'n methu cael eu dilysu?

Mae dogfen o'r enw Dental Activity Processing Errors ar wefan NHSBSA - https://www.nhsbsa.nhs.uk/activity-payment-and-pension-services/dental-activity-processing Mae wedi'i diweddaru i gynnwys y codau gwallau newydd.

Yn ogystal, cadwch lygad am ddiweddariadau pellach a anfonir drwy Fwletin NHSBSA lle tynnir sylw at wallau penodol sy'n digwydd yn aml.

### A yw'r 'rheol dau fis' yn berthnasol o hyd i gyflwyniadau FP17W?

Oes, mae'r 'rheol dau fis' mewn perthynas â chyflwyno FP17Wau yn dal i fod ar waith. Mae hyn yn berthnasol i gyflwyno FP17Wau o fewn dau fis i'r dyddiad cwblhau, neu cyn gynted â phosibl os penderfynir nodi triniaeth anghyflawn.

### Gyda pha Fand y mae *Best Practice Prevention* yn cysylltu ag ef mewn perthynas â'r set ddata glinigol?

Mae *Best Practice Prevention* (codau 9366-9 yng Nghymru) ar gael i gofnodi'r broses o ddarparu eitemau atal ond mae'n eitem wedi'i bandio'n nwl a gall ddigwydd ar unrhyw hawliad a gyflwynir i'r NHSBSA.

### Beth yw'r opsiwn "*Patient Presented With*" sydd bellach ar yr FP17W?

Mae hyn yn caniatáu i bractisiau gofnodi rheswm y claf dros fynychu, e.e. ymweliad/archwiliad asesu rheolaidd neu boen/haint ac ati. Er y gwerthfawrogir y gall mwy nag un fod yn berthnasol, dylai'r cofnod adlewyrchu'r hyn a ystyrir yn brif reswm dros fynychu.

### Pam ddylwn i gwblhau'r Set Ddata Glinigol ar gyfer Glanhau a Chyfarwyddyd os yw'n atal y claf rhag cael archwiliad am ddim - mae'n ymddangos mai dim ond rhan o'r archwiliad sy'n cynnig cyngor?

Ystyrir bod cael gwared ar Ffactorau Dargadwol Plac (PRFs) yn driniaeth a byddai'n codi tâl ar gleifion pe bai'n cael ei nodi fel rhan o hawliad Archwiliad yn Unig ar gyfer cleifion o dan 25 oed a 60 oed a throsodd. Ystyrir bod Cyfarwyddyd Brwsio Dannedd (TBI), glanhau rhwng y dannedd, a chynllun Cyfarwyddyd Hylendid y Geg (OHI) yn gyngor; maent yn eitemau wedi'u bandio'n nwl ac felly ni fyddent yn codi tâl ar glaf os cânt eu nodi fel rhan o hawliad Archwiliad yn Unig.

### A oes angen rhoi'r holl godau ar gyfer cyfarwyddyd brwsio dannedd/cyngor glanhau/glanhau rhwng y dannedd ar bob Cwrs Triniaeth (COT)?

Dylid nodi pa rai bynnag sy'n berthnasol ar yr FP17W i sicrhau bod y gofal a ddarperir i gleifion yn cael ei gasglu'n gywir.

### A oes angen i ni gael caniatâd wedi'i lofnodi gan y claf i allu rhannu ei ffôn symudol a chyfeiriad e-bost?

Mae'r ffurflen PRW yn caniatáu i'r claf wrthod rhannu ei rif ffôn symudol a'i gyfeiriad e-bost. Os nad yw'r claf yn dymuno optio allan, y ffurflen PRW ei hun yw'r caniatâd wedi'i lofnodi i rannu ei rif ffôn symudol a'i gyfeiriad e-bost gyda'r NHSBSA.

### Onid yw 'Archwiliad am ddim yng Nghymru' - yn amherthnasol nawr gan fod metrigau newydd yn cario tâl band un?

Mae hawliad am "Archwiliad Am Ddim" (Archwiliad yn Unig) mewn perthynas â chleifion o dan 25 oed a 60 oed a throsodd yn dal i gael ei ganiatáu. Ni fydd hawliad a gyflwynir fel Archwiliad yn Unig yn codi tâl ar glaf os nodir farnais fflworid. Fodd bynnag, bydd unrhyw eitem Band 1 arall (er enghraifft radiograffiau) yn ei gwneud yn ofynnol i godi tâl ar glaf gael ei godi, lle bo hynny'n berthnasol ac, os caiff ei gynnwys ar hawliad Archwiliad yn Unig, bydd yn achosi i'r hawliad gael ei wrthod. Nid yw'r sefyllfa hon wedi newid ers caniatáu i farnais fflworid gael ei gynnwys ar hawliad Archwiliad yn Unig. Dylai darparwyr sicrhau bod eu DPMS yn cydfynd â'r gofyniad hwn.

### Ar gyfer plentyn o dan 12 oed, a ydym yn gadael y set ddata perio yn wag neu a ydym yn defnyddio "Archwiliad ddim yn bosibl"?

Cynghorir perfformwyr i ddilyn canllawiau Cymdeithas Periodontol Prydain (BSP) o ran darparu asesiad a gofal periodontol. Derbynnir na fydd asesiad periodontol yn bosibl i rai cleifion, gan gynnwys cleifion o dan 12 oed. Cafodd yr opsiwn hwn ei gynnwys ar gyfer y senarios hynny ac i asesiad risg Asesiad o Risgiau ac Anghenion Clinigol y Geg (ACORN) beidio â methu dilysu os nad oedd cofnod wedi'i gyflwyno.